

Cyflwyno newyddion ynghylch gwaith y bartneriaeth a datblygiadau eraill wrth drawsnewid iechyd a gofal yng Ngorllewin Cymru.

Fframwaith Sefydlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae meithrin gweithlu medrus iawn sy'n gallu gweithredu ar draws ffiniau sefydliadol a darparu modelau integredig o ofal yn thema graidd [Cymru Iachach](#) ac yn flaenoriaeth ar gyfer Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru.

Rydym yn falch felly bod rhanbarth Gorllewin Cymru wedi cael ei ddewis i dreialu fframwaith sefydlu iechyd a gofal cymdeithasol newydd ar y cyd â 3 awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda gan weithio mewn partneriaeth â Gofal Cymdeithasol Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Undebau Llafur, defnyddwyr, gofalwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae hwn yn gyfle gwerthfawr i weithio gyda phartneriaid ledled y sector er mwyn gweithredu fframwaith newydd sy'n golygu bod y sector un cam arall yn nes at fod yn weithlu cymwys sydd â'r sgiliau ar gyfer y dyfodol.

Mae'r fframwaith sefydlu ar y cyd a'r gyfres newydd o gymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol yn darparu cyfle i sicrhau dulliau mwy effeithiol o ddysgu ar draws y 2 sector drwy rannu adnoddau ac arbenigedd. Bydd hyn yn ei dro yn darparu sylfaen ar gyfer ffyrdd mwy integredig o weithio. Nod y cynllun peilot yw edrych ar sut y gall hyn weithio yn ymarferol.

Ar hyn o bryd, mae gan y sectorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol raglenni sefydlu achrededig ar wahân, yn cynnwys pynciau tebyg. Mae'r Wobr ar gyfer Sefydlu Gofal Cymdeithasol yng Nghymru yn gymhwyster achrededig ar gyfer y sawl sydd un ai'n newydd i'r sector gofal, yn paratoi i weithio yn y sector gofal neu'n gweithio yn y sector gofal. Mae'r Fframwaith 'Datblygu Rhagoriaeth mewn Gofal Iechyd' yn cynnwys sesiwn sefydlu gorfodol achrededig GIG Cymru ar gyfer pob gweithiwr cymorth gofal iechyd sydd newydd ei benodi, a ategir gan uned Dysgu Gydol Oes gyda Sicrwydd Ansawdd.

Mae'r Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol wedi cael ei adolygu gan Gofal Cymdeithasol Cymru, wedi'i lywio gan grŵp cynghori lle mae Gwasanaethau'r Gweithlu, Addysg a Datblygu GIG Cymru yn bartner allweddol. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, mae fframwaith sefydlu Cymru gyfan wedi cael ei ddatblygu mewn partneriaeth rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n cael ei weithredu yn y sector gofal cymdeithasol ar gyfer pob gweithiwr gofal cymdeithasol ers mis Ebrill 2018 ac ystyrir ei weithredu ym mis Medi 2019 gan y sector iechyd ar gyfer gweithwyr cymorth gofal iechyd sy'n cael eu cyflogi mewn lleoliadau cymunedol.

Gwobrau Buddsoddwyr mewn Gofal - Ionawr 2019

Mae cymorth i ofalwyr yn flaenoriaeth graidd i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. Grŵp rhanbarthol o ofalwyr sy'n adrodd i'r Bwrdd sy'n gyfrifol am ddatblygu a darparu rhaglen eang â'r nod o sicrhau y tynnir sylw at anghenion gofalwyr a'u bod yn cael y cymorth gorau posibl er mwyn perfformio eu rolau hanfodol.

Menter iechyd yw'r cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr sydd ar gael i unrhyw sefydliad iechyd, gofal cymdeithasol a thrydydd sector ac sy'n gweithio mewn partneriaeth ar draws rhanbarth Gorllewin Cymru. Mae'r Cynllun yn cynnwys gofalwyr o bob oed a sefyllfa, gofalwyr ifanc o dan 18 oed, gofalwyr sy'n oedolion ifanc rhwng 18 a 25 oed, gofalwyr sy'n rhieni ac sy'n gofalu am blentyn sydd ag anabledd neu fater iechyd meddwl, gofalwyr sy'n gofalu am frawd/chwaer, pobl hŷn sy'n gofalu am ei gilydd ac ati.

Mae Canolfannau Cynhwysiant Cymunedol ar gyfer Oedolion ag Anableddau a Materion Iechyd Meddwl yn Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli wedi cyflawni eu gwobr lefel efydd Buddsoddwyr mewn Gofalwyr. Mae arweinydd gofal a staff y canolfannau, gyda chymorth o'r sector iechyd a'r trydydd sector, wedi bod yn ymwneud â'r cynllun am yr 8 mis diwethaf

Ysgol y Strade, Llanelli oedd yr ysgol uwchradd gyntaf i gyflwyno eu tystiolaeth ar gyfer gwobr y Cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr yn y Gymraeg a chawsant eu cynorthwyo gan Debbie Bence, swyddog Buddsoddwyr mewn Gofalwyr, a Cat Hooton o'r gwasanaeth Gofalwyr Ifanc yn Sir Gaerfyrddin. Yn y llun gwelir Adam Powell, arweinydd gofal gyda'u tystysgrif Gwobr Efydd. Roedd Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Addysg - Cyngor Sir Caerfyrddin, a Pennie Muir, Arweinydd Buddsoddwyr mewn Gofalwyr - Hywel Dda hefyd yn bresennol yn y digwyddiad yr wythnos diwethaf.



Ysgol y Strade, Gwobr Efydd

Byddwn yn rhoi gwybod am wobrau eraill Buddsoddwyr mewn Gofalwyr pan fyddant yn cael eu cyflwyno ledled rhanbarth Gorllewin Cymru. Bydd y gwobrau Arian ac Efydd a enillwyd yn Sir Benfro y mis hwn yn cael sylw pan fydd y seremoni wobrwyo yn cael ei chynnal. Cadwch lygad ar ein cyfrifon Twitter, Facebook a'n tudalen gwe i gael y newyddion diweddaraf.

Trawsnewid Iechyd Meddwl - Enillydd Gwobrau Coleg Brenhinol y Seiciatryddion 2018

Mae'r rhaglen 'Trawsnewid Iechyd Meddwl' o dan arweiniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yng Ngorllewin Cymru wedi ysgogi cydweithio â defnyddwyr gwasanaeth, staff, partneriaid a'r Cyngor Iechyd Cymuned er mwyn cyd-gynhyrchu model ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer y dyfodol, wedi'i seilio ar ddysgu drwy ymgysylltu, cyd-ddylunio, cydweithio rhyngwladol ac ymgynghori cyhoeddus. Mae'r Grŵp Gweithredu Iechyd Meddwl yn goruchwyllo ailddylunio'r gwasanaeth hwn, o dan gadeiryddiaeth Joe Teape, Dirprwy Brif Weithredwr.

Yng ngwobrau blynyddol Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yn Llundain ar 7 Tachwedd 2018, enillodd y rhaglen y wobr 'Tîm Seiciatrig y Flwyddyn: Ymrwymiad gwych i ddatblygiad cynaliadwy y gwasanaeth'.



Dywedodd y panel adolygu: “Mae'r prosiect arloesol hwn, sydd wedi'i ddylunio, ei gynhyrchu a'i ddarparu ar y cyd, yn canolbwyntio ar atal ac adfer. Mae'n darparu Canolfannau Iechyd Meddwl Cymunedol 24 awr (yn cynnwys gwelyau cleifion mewnol). Roedd y grŵp prosiect yn amlddisgyblaethol ac yn cynnwys pobl â phrofiad byw perthnasol. Nod y prosiect yw gwella effeithlonrwydd, atal argyfyngau a lleihau derbyniadau y gellir eu hosgoi. Mae defnyddio dulliau cyfathrebu electronig yn lleihau'r angen i staff a defnyddwyr gwasanaeth deithio a thrwy hynny, leihau unrhyw effaith ar yr amgylchedd.”

Longyfarchiadau i'r holl staff, partneriaid a defnyddwyr gwasanaeth oedd yn rhan o'r prosiect.



Teithiau Hyfforddiant Dementia Rhithwir Symudol 2019

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod gweledigaeth glir i Gymru fod yn genedl sy'n cefnogi dementia ac yn cydnabod hawliau pobl â dementia i deimlo'n werthfawr ac i fyw mor annibynnol â phosibl yn eu cymunedau. Mae Cynllun Gweithredu Dementia Cymru yn nodi sut y caiff hyn ei gyflawni dros y pedair blynedd nesaf drwy weithredu ar y cyd rhwng gwahanol asiantaethau, cymunedau a phobl yr effeithir arnynt gan y cyflwr. Yng Ngorllewin Cymru, mae grŵp llywio rhanbarthol yn datblygu rhaglenni lleol er mwyn cefnogi'r rhaglen genedlaethol. Blaenoriaeth allweddol yw codi ymwybyddiaeth ynghylch beth yw Dementia a sut y mae'n effeithio ar fywydau pobl o ddydd i ddydd.

Mae wedi ei brofi'n feddygol ac yn wyddonol mai'r Daith Dementia Rhithwir yw'r profiad agosaf y gallwn ei roi i berson ag ymennydd iach o'r hyn yw Dementia. Trwy ddeall dementia o safbwynt y person, gallwn ni newid arferion, lleihau problemau a gwella gofal a bywydau.

Er gwaethaf y teimladau o ofn, braw, dryswch a bregusrwydd, mae'r Daith Dementia Rhithwir yn hyfforddiant angenrheidiol i bob gweithiwr gofal proffesiynol neu aelod o'r teulu sydd eisiau deall dementia drwy brofi'r hyn y mae person â'r afiechyd yn ei brofi.

Mae llefydd ar gael ledled Gorllewin Cymru ym mis Chwefror a Mawrth. Mae'n rhaid archebu lle ymlaen llaw. Cysylltwch â Rebecca Jones drwy e-bostio reajones@sirgar.gov.uk neu drwy ffonio 01267 228755 neu 07384 242 268.

Dyma'r dyddiadau a'r lleoliadau isod ac mae'r amserau canlynol ar gael ar bob dyddiad:

Sesiwn 1	09:30 – 12:00
Sesiwn 2	12:15 – 14:45
Sesiwn 3	15:00 – 17:15

4 Chwefror: Ystafell 2, Swyddfeydd y Cyngor, Canolfan Rheidol, Aberystwyth, SY23 3UE

6 Chwefror: Ysbyty Glangwili

7 Chwefror: Archifau Sir Benfro

14 Mawrth: Archifau Sir Benfro

15 Mawrth: Ystafell Ystwyth, Swyddfeydd y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron, SA46 OPA

29 Mawrth: Parc Dewi Sant, Sir Gaerfyrddin

Cadwch lygad ar ein cyfrifon Twitter, Facebook a'n tudalen gwe i gael rhagor o wybodaeth.

www.wwcp.org.uk @PGGCWWCP



Gellir cael profiad rhithwir o effeithiau corfforol Dementia.

Y tro nesaf:

Gorllewin Cymru Iachach: *Yn ddiweddar, cyflwynodd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol gais uchelgeisiol am gyllid gan Gronfa Drawsnewid Genedlaethol Llywodraeth Cymru, a sefydlwyd i gefnogi cyflawni amcanion Cymru Iachach. Mae hyn yn nodi rhaglen ehangach o drawsnewid pellach o ran iechyd a gofal cymdeithasol yn ein rhanbarth dros y ddwy flynedd nesaf. Disgwylir penderfyniad ynghylch cyllid cyn bo hir a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn y rhifyn nesaf.*



Rhowch wybod eich barn:

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu adborth am yr e-fwletin hwn neu os hoffech roi sylw i eitemau penodol yn rhifynnau'r dyfodol, anfonwch nhw at Michael McClymont mmcclymont@sirgar.gov.uk

<http://twitter.com/PGGCWWCP>

www.facebook.com/PGGCWWCP/

<http://wwcp.org.uk>